William Graham: Mae'r swyddogaethau yn y Mesur arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn adran 3 ac Atodlen 1 wedi'u drafftio'n weddol eang, gan ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried yn briodol drwy is-ddeddfwriaeth. Pam oedd hyn yn angenrheidiol?

Elin Jones: Mae'r swyddogaethau yn Atodlen 1 yn dyblygu'r swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008, a sefydlodd Fwrdd Ardollau Cymru. Er eu bod yn ymddangos yn eang, efallai, nid ydynt ond yn dyblygu'r sefyllfa sy'n bodoli ar hyn o bryd.

David Lloyd: We will move on to the next questions, which will be asked by Peter Black.

Peter Black: Byddai'r Mesur arfaethedig, pe bai'r Cynulliad yn cytuno iddo, yn rhoi pwerau eang eu cwmpas i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r sector cig coch. Pam mae rhaid dirprwyo'r pwerau hynny i gorff arall?

[106] **Elin Jones:** Hybu Cig Cymru undertakes that delegation currently and there is a considerable degree of support for the work that it is doing. It was a policy decision of the previous Government to set up Hybu Cig Cymru in its current form and I see no reason to change that format. Having a close link with industry representatives, and having farmer, producer and processor representatives on the board of Hybu Cig Cymru, is useful in ensuring that all aspects of the industry feel that they have ownership of the promotional and development activity of Hybu Cig Cymru. As primary producers and processors, they are the ones who are paying the levy, of course.

[107] **Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. What you said very much supports what the witnesses have said to the committee, namely that the current arrangements for the work of Hybu Cig Cymru work well. Given that these arrangements are working so well, why do you need the flexibility to do things differently in the future?

[108] **Elin Jones:** The industry is subject to shocks, and they may be shocks that result from animal diseases or particular food scares. There is a requirement for the proposed Measure to be drafted in such a way to allow, if particular issues affect the industry—I hope that they do not—for us to put in place policies within a short time to respond to them.

[109] **Peter Black:** Given that your powers are so broad and the sort of detail that is in the Measure as to how you may change those arrangements, can you give us some examples of the sort of circumstances in which you would change arrangements and some idea as to how you might consider changing arrangements to meet those changed circumstances?

[110] **Elin Jones:** The area of discussion and debate currently is on the collection of the levy and about the distribution of the levy, especially between Wales, England and Scotland. Currently, a higher proportion of the animals that are produced in Wales are

Elin Jones: Mae Hybu Cig Cymru yn ymgymryd â'r pwerau dirprwyedig hynny ar hyn o bryd ac mae cryn lawer o gefnogaeth i'r gwaith y mae'n ei wneud. Penderfyniad polisi gan y Llywodraeth flaenorol oedd sefydlu Hybu Cig Cymru yn ei ffurf bresennol ac ni welaf unrhyw reswm i newid y fformat hwnnw. Mae cael cyswllt agos â chynrychiolwyr y diwydiant, a bod â chynrychiolwyr o blith ffermwyr, cynhyrchwyr a phroseswyr ar fwrdd Hybu Cig Cymru, yn fuddiol er mwyn sicrhau bod pob agwedd o'r diwydiant yn teimlo bod ganddynt berchenogaeth ar weithgarwch hyrwyddo a datblygu Hybu Cig Cymru. Fel cynhyrchwyr a phroseswyr cynradd, nhw yw'r rhai sy'n talu'r ardoll, wrth gwrs.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r hyn a ddywedoch yn ategu'r hyn y mae'r tystion wedi'i ddweud wrth y pwyllgor, sef bod y trefniadau presennol o ran gwaith Hybu Cig Cymru yn gweithio'n dda. O gofio bod y trefniadau hyn yn gweithio cystal, pam mae angen yr hyblygrwydd amoch i wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol?

Elin Jones: Mae'r diwydiant yn agored i ysgytiadau, a gallent fod yn ysgytiadau sy'n deillio o glefydau anifeiliaid neu ddychryn ynglŷn â rhyw fwyd neilltuol. Mae gofyniad i'r Mesur arfaethedig gael ei ddrafftio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu inni, pe bai problemau neilltuol yn effeithio ar y diwydiant—a gobeithiaf na fydd hynny'n digwydd—sefydlu polisiau o fewn cyfnod byr i ymateb iddynt.

Peter Black: O ystyried bod eich pwerau mor eang a'r math o fanylion sydd yn y Mesur o ran sut y gallech newid y trefniadau hynny, a allwch roi rhai enghreifftiau inni o'r math o amgylchiadau lle byddech yn newid y trefniadau a rhyw syniad o sut y byddech efallai yn ystyried newid y trefniadau i ymateb i'r amgylchiadau newydd hynny?

Elin Jones: Y maes sy'n destun trin a thrafod ar hyn o bryd yw casglu'r ardoll a sut y caiff yr ardoll ei rhannu, yn arbennig rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban. Ar hyn o bryd, mae cyfran uwch o'r anifeiliaid sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru yn cael eu lladd yn

killed in England and, therefore, the levy on them is collected in English abattoirs and is subject to be used by the English authority, with no means of repatriating that levy back to Wales. Hybu Cig Cymru and its board members have raised this with me at a meeting that I attended a few weeks ago, and it was a subject of discussion again this morning in its conference at Llandudno.

2.40 p.m.

[111] It has estimated that there is a shortfall of around £1 million in its annual budget from not having access to the funding from the animals killed in England. It also means that there is a particular risk in the system, because, should some of our existing abattoirs cease to trade or reduce their capacity to kill, that would again reduce the ability to raise and collect the levy in Wales, which would reduce the amount of money that we have for the purposes of promoting Welsh red meat. Therefore, by introducing clauses in this proposed Measure that could allow for the collection of levy to be based not wholly at the abattoir but at the primary producer end, possibly, or in organisations that may be engaged in secondary activities in the red meat sector, then I am putting in place powers that could allow for a change of policy in the future. That would be subject to considerable consultation and also discussion and agreement between Welsh Ministers and the relevant English and Scottish Ministers, who are all equally affected by this due to the nature of the cross-border trade between Scotland, England and Wales.

[112] **Peter Black:** Thank you.

[113] **David Lloyd:** Diolch, Peter. Mae'r gyfres nesaf o gwestiynau o dan ofal Janice Gregory.

[114] **Janice Gregory:** I refer to section 4, which relates to imposing a levy and the designation of persons liable. Could you provide us with the rationale behind ensuring that there is flexibility for you to impose a levy on all those in the red meat supply chain, if this were required? Why is this necessary?

[115] **Elin Jones:** Currently, the levy is

Lloegr ac, felly, caiff yr ardoll arnynt ei chasglu yn lladd-dai Lloegr a'i defnyddio gan yr awdurdod yn Lloegr, heb unrhyw ffordd o ddychwelyd yr ardoll yn ôl i Gymru. Mae Hybu Cig Cymru ac aelodau ei fwrdd wedi codi hyn gyda mi mewn cyfarfod y bwm ynddo rai wythnosau'n ôl, ac yr oedd yn destun trafod eto y bore yma yn ei gynhadledd yn Llandudno.

Mae wedi amcangyfrif bod diffyg o oddeutu £1 filiwn yn ei gyllideb flynyddol gan nad yw'n gallu manteisio ar y cyllid o'r anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn Lloegr. Mae hefyd yn golygu bod risg arbennig yn y system, oherwydd, pe bai rhai o'n lladd-dai presennol yn rhoi'r gorau i fasnachu neu'n lleihau eu capasiti lladd, byddai hynny eto'n lleihau'r gallu i godi a chasglu'r ardoll yng Nghymru, a fyddai'n lleihau'r swm o arian sydd gennym i'r diben o hyrwyddo cig coch o Gymru. Felly, drwy gyflwyno cymalau yn y Mesur arfaethedig hwn a allai ei gwneud yn bosibl i beidio â seilio'r gwaith o gasglu'r ardoll yn gyfan gwbl ar y lladd-dy ond ar leoliad y cynhyrhydd cynradd, o bosibl, neu mewn sefydliadau a allai fod yn gweithio ar weithgareddau eilaidd yn y sector cig coch, yna yr wyf yn sefydlu pwerau a fyddai'n caniatáu ar gyfer newid polisi yn y dyfodol. Byddai hynny'n ddarostyngedig i lawer iawn o ymgynghori a thrafod a chytuno hefyd rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion perthnasol Lloegr a'r Alban, y mae hyn yn effeithio i'r un graddau arnynt i gyd oherwydd natur y fasnach drawsffiniol rhwng yr Alban, Lloegr a Chymru.

Peter Black: Diolch.

David Lloyd: Thank you, Peter. The next series of questions is from Janice Gregory.

Janice Gregory: Cyfeiriaf at adran 4, sy'n ymdrin â gosod ardoll a dynodi'r rhai sy'n atebol. A allech roi inni'r sail resymegol wrth wraidd sicrhau bod hyblygrwydd ichi i godi ardoll ar bawb sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi cig coch, pe bai'i angen? Pam mae hyn yn angenrheidiol?

Elin Jones: Ar hyn o bryd, caiff yr ardoll ei

imposed on slaughterers and primary producers and collected at the abattoir. It may be the case that we need to look at the collection of levy either under the primary activity or under secondary activity, so that we are able to more fairly collect and spend the levy that relates to the animals produced in Wales for the purposes of Welsh red meat promotion.

[116] **Janice Gregory:** The proposed Measure will allow you to extend the designation of those subject to a levy to those involved in secondary activities, as you have mentioned. Could you explain why you have chosen not to name specific activities so that the designation is defined on the face of the proposed Measure? Do you believe that this provides sufficient legal clarity?

[117] **Elin Jones:** As anyone involved in secondary activity in the red meat sector is not currently subject to a levy, any change to that designation or introduction of such a designation would be made by Order under the affirmative procedure. I am not currently in a position to outline what persons are involved in a secondary activity, because it would require considerable consultation and work to identify that activity and where the appropriate collection of levy could be undertaken as a means of raising the levy based on the transactions within the red meat sector.

[118] **Janice Gregory:** What would you hope to achieve by collecting the levy in a different way or imposing the levy on other groups?

[119] **Elin Jones:** I guess that I would hope to achieve more money for the Welsh red meat sector. I identified earlier that, currently, because such a large proportion of our beef cattle, in particular, but also our sheep, is killed outside of Wales, that levy then is not repatriated to Wales. By collecting in a different way, we could achieve a fairer distribution of levy in accordance with the amount of animals that are produced on-farm in Wales, but this will have an effect on the amount of levy available in England, or even Scotland, and therefore I have highlighted that these issues need further consideration

chodi ar gigyddwyr a chynhyrchwyr cynradd a chaiff ei chasglu yn y lladd-dy. Efallai y bydd angen inni ystyried casglu ardoll un ai o dan y gweithgaredd cynradd neu o dan y gweithgaredd eilaidd, fel ein bod yn gallu casglu a gwario'r ardoll sy'n gysylltiedig â'r anifeiliaid a gynhyrchir yng Nghymru yn fwy teg i'r diben o hyrwyddo cig coch o Gymru.

Janice Gregory: Bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu ichi ymestyn dynodiad y rhai sy'n ddarostyngedig i ardoll i gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau eraill, fel y crybwyllasoch. A allech egluro pam yr ydych wedi dewis peidio ag enwi gweithgareddau penodol fel bod y dynodiad yn cael ei ddiffinio ar wyneb y Mesur arfaethedig? A ydych yn credu bod hyn yn rhoi digon o eglurder cyfreithiol?

Elin Jones: Gan nad oes unrhyw un sy'n ymwneud â gweithgarwch eilaidd yn y sector cig coch yn ddarostyngedig i ardoll ar hyn o bryd, byddai unrhyw newid i'r dynodiad hwnnw neu gyflwyno dynodiad o'r fath yn cael ei wneud drwy Orchymyn o dan y weithdrefn gadarnhaol. Nid wyf mewn sefyllfa ar hyn o bryd i amlinellu pwy sy'n ymwneud â gweithgarwch eilaidd, oherwydd byddai gofyn gwneud cryn lawer o ymgynghori a gwaith i ganfod y gweithgarwch hwnnw a ble y gellid mynd ati i gasglu'r ardoll yn briodol fel ffordd o godi'r ardoll ar sail y trafodion yn y sector cig coch.

Janice Gregory: Beth fydddech chi'n gobeithio ei gyflawni drwy gasglu'r ardoll mewn ffordd wahanol neu godi'r ardoll ar grwpiau eraill?

Elin Jones: Mae'n debyg y byddwn yn gobeithio sicrhau rhagor o arian i sector cig coch Cymru. Nodais yn gynharach nad yw'r ardoll honno yn dychwelyd i Gymru gan fod cyfran mor helaeth, ar hyn o bryd, o'n gwartheg eidion, yn arbennig, ond hefyd ein defaid, yn cael eu lladd y tu allan i Gymru. Drwy gasglu mewn ffordd wahanol, gallem sicrhau bod yr ardoll yn cael ei dosbarthu'n decach yn unol â faint o anifeiliaid a gynhyrchir ar ffermydd yng Nghymru, ond bydd hyn yn effeithio ar faint o ardoll sydd ar gael yn Lloegr, neu hyd yn oed yn yr Alban, ac yr wyf felly wedi tynnu sylw at y ffaith

with English and Scottish Ministers before any decision on redesignation is taken.

fod angen ystyried y materion hyn ymhellach gyda Gweinidogion Lloegr a'r Alban cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ailddynodi.

[120] **Janice Gregory:** I move on to my final question. Some witnesses have referred to the need for consultation with the industry prior to the implementation of any amendments. Would including a requirement to consult with the industry in the proposed Measure provide the industry with more stability in your view?

Janice Gregory: Af ymlaen at fy nghwestiwn olaf. Mae rhai tystion wedi cyfeirio at yr angen i ymgynghori â'r diwydiant cyn gweithredu unrhyw newidiadau. A fyddai cynnwys gofyniad i ymgynghori â'r diwydiant yn y Mesur arfaethedig yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i'r diwydiant yn eich barn chi?

[121] **Elin Jones:** The activities that would require any change of designation by Order would be subject to consultation and, as I have highlighted, if we consider an option in Wales that would designate persons involved in a secondary activity in the red meat sector for levy collection purposes, then that would require considerable consultation. However, I do not believe that it is necessary for that to be on the face of the Measure. The affirmative procedure will allow that consultation, so it should happen.

Elin Jones: Byddai'r gweithgareddau y byddai gofyn newid eu dynodiad drwy Orchymyn yn ddarostyngedig i ymgynghori ac, fel yr wyf wedi pwysleisio, os byddwn yn ystyried opsiwn yng Nghymru a fyddai'n dynodi pobl sy'n ymwneud â gweithgarwch eilaidd yn y sector cig coch at ddibenion casglu ardoll, yna byddai gofyn ymgynghori'n sylweddol. Fodd bynnag, ni chredaf fod rhaid i hynny fod ar wyneb y Mesur. Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn caniatáu'r ymgynghori hwnnw, felly dylai ddigwydd.

[122] **William Graham:** I want to turn to sections 8 and 9 on returns and estimates, and the provision of information. How do you envision the processes involved being enforced?

William Graham: Yr wyf am droi at adrannau 8 a 9 ar ddatganiadau niferoedd ac amcangyfrifon, a darparu gwybodaeth. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd y prosesau dan sylw yn cael eu gorfodi?

[123] **Elin Jones:** The enforcement is outlined later in the proposed Measure in order to ensure that the levy is collected efficiently and is in line with the aspirations of the legislation; enforcement is a key part of that. To date, my understanding is that Hybu Cig Cymru and the Welsh Levy Board have not needed to undertake court action, but the threat of enforcement is important to ensure the effective collection of levy.

Elin Jones: Caiff y ddarpariaeth gorfodi ei hamlinellu'n ddiweddarach yn y Mesur arfaethedig i sicrhau bod yr ardoll yn cael ei chasglu'n effeithlon ac yn unol â dyheadau'r ddeddfwriaeth; mae gorfodaeth yn rhan allweddol o hynny. Hyd yma, yn ôl a ddeallaf ni fu angen i Hybu Cig Cymru a Bwrdd Ardollau Cymru weithredu drwy'r llysoedd, ond mae'r bygythiad gorfodi yn bwysig er sicrhau bod yr ardoll yn cael ei chasglu'n effeithiol.

[124] **William Graham:** How much of a departure is the approach in the proposed Measure from current arrangements?

William Graham: I ba raddau y mae'r drefn sydd yn y Mesur arfaethedig yn wahanol i'r trefniadau presennol?

[125] **Elin Jones:** There is a strengthening on enforcement and powers of entry. I have not yet asked officials to contribute, so I will ask if they want to come in here.

Elin Jones: Mae'r ddarpariaeth gorfodi a'r pwerau mynediad yn cael eu cryfhau. Nid wyf wedi gofyn i'r swyddogion gyfrannu eto, felly gofynnaf a hoffent siarad yn awr.

[126] **Mr Brunt:** On the question of a

Mr Brunt: Ar gwestiwn gwyro oddi wrth

departure from the provisions of the Welsh Levy Board, the maximum penalty levels for breach of the Order is the same as for the Welsh Levy Board—the proposed Measure sets it at a maximum of level 5. We have sought to make the provisions of the proposed Measure more comprehensive than the Welsh Levy Board Order 2008, which has been around for about 18 months, and having reflected on that before instructing the Office of the Welsh Legislative Counsel to draft the proposed Measure, we considered that the enforcement provisions should be examined, consolidated and made more appropriate. As you know, there may be a possibility in future of designating different persons for the payment of levy, which may in itself raise enforcement issues. We hope that the proposed Measure's enforcement powers are more appropriate and that they represent sufficient safeguards and checks.

[127] **William Graham:** Section 11(12) creates an offence of obstruction 'without reasonable excuse'. Section 8(8) creates an offence of failing to submit a return but contains no corresponding 'without reasonable excuse'. Why was it considered appropriate to create an absolute offence in one case and not in the other?

2.50 p.m.

[128] **Elin Jones:** It does not seem to be particularly consistent, you are right. I wonder whether the officials could outline whether there is a particular cause or reason for this, or whether we consider it to be appropriate to be consistent throughout that sub-section.

[129] **Mr Brunt:** Having instructed the Office of Welsh Legislative Counsel to draft this, and having listened to that question, I think that we will need to take this into account in considering whether to table amendments to the proposed Measure at the next stage.

[130] **David Lloyd:** Mae'r gyfres olaf o gwestiynau o dan law Peter Black.

[131] **Peter Black:** I will move on to inspection and powers of entry, which come under sections 10 and 11, and, in particular,

ddarpariaethau Bwrdd Ardollau Cymru, mae'r lefelau cosb uchaf am dorri'r Gorchymyn yr un fath ag ydynt i Fwrdd Ardollau Cymru—mae'r Mesur arfaethedig yn ei osod ar lefel 5 fan bellach. Yr ydym wedi ceisio gwneud darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn fwy cynhwysfawr na Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008, a fu mewn bodolaeth ers oddeutu 18 mis, ac ar ôl pwyso a mesur hwnnw cyn cyfarwyddo Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru i ddrafftio'r Mesur arfaethedig, yr oeddem o'r farn y dylai'r darpariaethau gorfodi gael eu harchwilio, eu cyfnerthu a'u gwneud yn fwy priodol. Fel y gwyddoch, efallai y bydd yn bosibl dynodi pobl wahanol i dalu'r ardoll yn y dyfodol, a gallai hynny ynddo'i hun godi materion gorfodi. Gobeithiwn fod pwerau gorfodi'r Mesur arfaethedig yn fwy priodol a'u bod yn cynrychioli camau diogelu a gwiriadau digonol.

William Graham: Mae adran 11(12) yn creu trosedd atal 'heb esgus rhesymol'. Mae adran 8(8) yn creu trosedd o fethu â chyflwyno datganiad ond nid yw'n cynnwys cymal cyfatebol 'heb esgus rhesymol'. Pam oedd hi'n cael ei hystyried yn briodol creu trosedd ddiadmod yn y naill achos ond nid yn y llall?

Elin Jones: Nid yw'n ymddangos yn gyson iawn, yr ydych yn gywir. Tybed a allai'r swyddogion amlinellu a oes achos neu reswm neilltuol am hyn, neu a ydym o'r farn mai priodol fyddai bod yn gyson drwy'r is-adran honno ar ei hyd.

Mr Brunt: A ninnau wedi cyfarwyddo Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru i ddrafftio hyn, ac ar ôl gwranddo ar y cwestiwn hwnnw, credaf y bydd angen inni roi sylw i hyn wrth ystyried a ddylem gyflwyno gwelliannau i'r Mesur arfaethedig yn y cyfnod nesaf.

David Lloyd: The final set of questions are from Peter Black.

Peter Black: Af ymlaen at arolygu a phwerau mynediad, sy'n dod o dan adrannau 10 ac 11, ac, yn arbennig, y pŵer, drwy

the power, by warrant, to enter premises, and so on. What evidence is there to justify the provision of power to an ‘appointed person’ to enter a private dwelling that goes beyond existing powers?

[132] **Elin Jones:** I will ask the officials to answer that, if that is okay, because they are the more appropriate people to answer.

[133] **Peter Black:** I thought that you would do that.

[134] **Mr Howard:** It is probably easier to start by explaining what the current situation is in order to explain what the proposed Measure is trying to do. Presently, the levy is determined at the point of slaughter, therefore the information about the number of animals that are put through the slaughterhouse and the amount of levy that is to be collected is available at four major points of information collection. If we were to move to a situation where the levy was determined at the farm, then you would get 32,000 points of data collection, and we would have a situation where the records were kept on the farm. There are no clear and consistent definitions of a farm, a farmhouse or a dwelling house. So, you need sufficient powers to be able to inspect the records that the levy is based on, and those records may be in the farmhouse—they may be in a farm office or somewhere else, but it is pretty likely that they will be in the farmhouse, however that is defined. So, for the purposes of this proposed Measure, we have taken a similar framework to that which is used in agriculture legislation across the board, for example in the cattle movement regulations, and the provisions in this proposed Measure, to a greater extent, mirror others that are used elsewhere.

[135] **Peter Black:** If you were to move to that different method of collection, and I understand that you have not made a decision on that, would that require an affirmative resolution, or would that be done by regulation? How would that work?

[136] **Mr Brunt:** Do you mean the designation of new levy figures?

[137] **Peter Black:** If you moved to collect the levy at the farm, instead of collecting it at

warrant, i fynd i mewn i fangre, ac ati. Pa dystiolaeth sydd yna i gyfiawnhau darparu pŵer i ‘berson penodedig’ i fynd i mewn i fangre breifat, sy’n mynd ymhellach na’r pwerau presennol?

Elin Jones: Gofynnaf i’r swyddogion ateb hynny, os yw’n dderbyniol, oherwydd nhw yw’r bobl fwyaf priodol i ateb.

Peter Black: Yr oeddwn yn meddwl y byddech yn gwneud hynny.

Mr Howard: Mae’n haws mwy na thebyg dechrau drwy egluro beth yw’r sefyllfa bresennol er mwyn egluro beth mae’r Mesur arfaethedig yn ceisio’i wneud. Ar hyn o bryd, caiff yr ardoll ei phennu yn y man lladd, felly mae’r wybodaeth am y nifer o anifeiliaid sy’n mynd drwy’r lladd-dy a’r swm o ardoll sydd i gael ei chasglu ar gael o bedwar man casglu gwybodaeth mawr. Pe baem i symud i sefyllfa lle câi’r ardoll ei phennu ar y fferm, yna byddai gennych 32,000 o bwyntiau casglu data, a byddai gennym sefyllfa lle câi’r cofnodion eu cadw ar y fferm. Nid oes diffiniadau clir a chyson o fferm, ffermdy neu dŷ annedd. Felly, mae angen pwerau digonol arnoch i allu archwilio’r cofnodion y seilir yr ardoll arnynt, a gallai’r cofnodion hynny fod yn y ffermdy—gallent fod mewn swyddfa fferm neu yn rhywle arall, ond mae’n bur debygol mai yn y ffermdy y byddant, sut bynnag y diffinnir hwnnw. Felly, at ddibenion y Mesur arfaethedig, yr ydym wedi cymryd fframwaith tebyg i’r un a ddefnyddir mewn deddfwriaeth amaethyddol yn gyffredinol, er enghraifft yn y rheoliadau symud gwartheg, ac mae’r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig hwn, i raddau helaeth, yn adlewyrchu eraill sy’n cael eu defnyddio mewn mannau eraill.

Peter Black: Pe baech yn symud i’r dull gwahanol hwnnw o gasglu, a deallaf nad ydych wedi gwneud penderfyniad ar hynny, a fyddai angen penderfyniad cadarnhaol ar gyfer hynny, ynteu a gâi hynny ei wneud drwy reoliad? Sut byddai hynny’n gweithio?

Mr Brunt: Ai dynodi ffigurau ardoll newydd yr ydych yn ei olygu?

Peter Black: Os symudwch i gasglu’r ardoll ar y fferm, yn lle’i chasglu yn y lladd-dy

the slaughterhouse or at the point of sale, would you require an affirmative resolution? What would the legal method be of moving to that position?

[138] **Mr Brunt:** The proposed Measure contains powers under section 5(3) and 6(2) to make regulations about the imposition payment rate, and so on, of the levy. So, if we move to imposing levy on a different type of levy payer, then we would make regulations and it would not be done by administrative action.

[139] **Peter Black:** Would those regulations be subject to the negative resolution?

[140] **Mr Brunt:** Yes.

[141] **Peter Black:** You presumably take into account the opportunity cost of collecting that tax, because a major consideration in any taxation is whether the cost of collecting justifies the additional taxation.

[142] **Mr Howard:** That would be part of the complicated discussions that you must have to see whether or not the balance of getting the £1 million back into Wales is offset by the costs associated with collecting it from 32,000 farmers rather than from four major slaughterhouses.

[143] **Mr Brunt:** May I add to what I have said previously? We have sections 5(3) and 6(2) if we need to amend the calculation of payment, but the main basis of the calculation of payment is set out in Schedule 2, which requires regulations by the affirmative procedure.

[144] **Peter Black:** So, if you were to move to collection at the farm, it would probably have to be an affirmative procedure in terms of the calculation.

[145] **Mr Brunt:** We would need to check which power to use, but it is likely that it would be amending Schedule 2, using the affirmative procedure.

[146] **Peter Black:** Perhaps we could have a note, Chair, on how that would be done. It is important to determine whether more should

neu'r pwynt gwerthu, a fyddai angen penderfyniad cadarnhaol arnoch? Beth fyddai'r dull cyfreithiol o symud i'r sefyllfa honno?

Mr Brunt: Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau o dan adran 5(3) a 6(2) i wneud rheoliadau ynglŷn â gosod cyfradd yr ardollau, ac ati. Felly, pe baem yn symud i osod ardoll ar wahanol fath o dalwr ardollau, byddem yn gwneud rheoliadau ac ni châi ei wneud drwy weithredu gweinyddol.

Peter Black: A fyddai'r rheoliadau hynny'n ddarostyngedig i benderfyniad negyddol?

Mr Brunt: Byddent.

Peter Black: Yr wyf yn cymryd eich bod yn ystyried cost cyfle casglu'r dreth honno, oherwydd un ystyriaeth o bwys gydag unrhyw drethu yw a yw'r gost casglu yn cyfiawnhau'r trethu ychwanegol.

Mr Howard: Byddai hynny'n rhan o'r trafodaethau cymhleth y mae rhaid eu cynnal i weld a fyddai'r fantais o gael £1 miliwn yn ôl i Gymru yn gwneud iawn am y costau sy'n gysylltiedig â chasglu'r arian oddi wrth 32,000 o ffermwyr yn hytrach nag oddi wrth bedwar lladd-dy mawr.

Mr Brunt: A gaf fi ychwanegu at yr hyn a ddywedais gynt? Mae gennym adrannau 5(3) a 6(2) os oes angen inni newid y ffordd o gyfrifo'r taliad, ond mae'r brif sail y cyfrifir y taliad arni wedi'i nodi yn Atodlen 2, a rhaid cael rheoliadau drwy'r weithdrefn gadarnhaol o dan yr atodlen honno.

Peter Black: Felly, pe baech i symud i gasglu ar y fferm, mae'n debyg y byddai rhaid wrth drefn gadarnhaol o safbwynt y cyfrifiad.

Mr Brunt: Byddai angen inni gadarnhau pa bŵer i'w ddefnyddio, ond mae'n debygol y byddai'n diwygio Atodlen 2, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Peter Black: Efallai y gallem gael nodyn, Gadeirydd, ar sut y câi hynny ei wneud. Mae'n bwysig penderfynu a ddylid cynnwys

be included in the proposed Measure with regard to how you would go about making that change.

[147] **Elin Jones:** The designation of any person involved in primary activity—the producer—for the purposes of collection of the levy is currently subject to the negative resolution procedure under section 4. However, this was subject to considerable scrutiny yesterday in the Subordinate Legislation Committee, where I was challenged on the use of the negative rather than the affirmative procedure for the designation. I am considering further the committee's views on this. Additionally, Peter has raised the use of the powers of entry to dwelling houses for primary activity designation. That is a further factor for my consideration.

[148] **Peter Black:** That is the route that I would have suggested as well. Given that your officials have suggested that you might have to change the Schedule under the affirmative procedure, you might have a bit of a contradiction with regard to how you do it. So perhaps that needs to be looked at. You could come back to us on that.

[149] Section 11(4) is unclear with regard to the conditions under which an appointed person could enter a private dwelling house. Could you clarify your intention in section 11(4)(a) in relation to the difference between a private dwelling house and a holding?

[150] **Elin Jones:** I would like to refer to my officials on this.

[151] **Mr Brunt:** As you say, there is a reference to a private dwelling house and a holding in section 11(4). The term 'holding' is not defined in the definitions section, section 14. We will be discussing with the Minister whether the definitions section will need to be revised in the light of that.

[152] **Peter Black:** I have another question in relation to enforcement. You have the power of entry under warrant in the proposed Measure. If you moved to a situation where you were collecting the levy in a different way, would Hybu Cig Cymru or the Minister have powers under the Regulation of

rhagor yn y Mesur arfaethedig ynglŷn â sut y byddech yn mynd ati i gyflawni'r newid hwnnw.

Elin Jones: Ar hyn o bryd mae dynodi unrhyw un sy'n ymwneud â gweithgaredd cynradd—y cynhyrchydd—i'r diben o gasglu'r ardoll yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol o dan adran 4. Fodd bynnag, yr oedd hyn yn destun craffu sylweddol yn y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ddoe, lle cefais fy herio ynglŷn â defnyddio'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r un gadarnhaol ar gyfer y dynodi. Yr wyf yn ystyried barn y pwyllgor ar hyn ymhellach. Hefyd, mae Peter wedi codi mater defnyddio pwerau i gael mynediad i dai annedd yng nghyswllt dynodi gweithgaredd cynradd. Mae hynny'n ffactor pellach imi ei ystyried.

Peter Black: Dyna'r llwybr y byddwn inni wedi'i awgrymu hefyd. O gofio bod eich swyddogion wedi awgrymu y gallai fod rhaid ichi newid yr Atodlen o dan y weithdrefn gadarnhaol, efallai y bydd gennych anghysondeb o ran sut y gwnewch chi hynny. Felly efallai fod angen edrych ar hynny. Gallech ddod yn ôl atom ar hynny.

Mae adran 11(4) yn aneglur o ran o dan ba amodau y gallai person penodedig fynd i mewn i dŷ annedd preifat. A allech egluro'ch bwriad yn adran 11(4)(a) mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng tŷ annedd preifat a daliad?

Elin Jones: Hoffwn droi at fy swyddogion ar hyn.

Mr Brunt: Fel y dywedwch, mae cyfeiriad at dŷ annedd preifat a daliad yn adran 11(4). Nid yw'r term 'daliad' yn cael ei ddiffinio yn yr adran diffiniadau, adran 14. Byddwn yn trafod gyda'r Gweinidog a oes angen adolygu'r adran diffiniadau o ystyried hynny.

Peter Black: Mae gennyf gwestiwn arall ynglŷn â gorfodi. Mae gennych y pŵer i fynd i mewn dan warrant yn y Mesur arfaethedig. Pe baech yn symud i sefyllfa lle'r ydych yn casglu'r ardoll mewn ffordd wahanol, a fyddai gan Hybu Cig Cymru neu'r Gweinidog bwerau o dan Ddeddf

Investigatory Powers Act 2000 to carry out surveillance as part of that to find out whether someone is breaking the law?

[153] **Mr Brunt:** The Regulation of Investigatory Powers Act 2000 is currently under review. There has been a consultation by the Home Office on its future use.

[154] **Peter Black:** I am talking about it as it stands now.

[155] **Mr Brunt:** My understanding of the way that the Act works is that directed surveillance can be undertaken by Government officials where there is authorisation or there is an urgent need to do so and there is no time to obtain authorisation. The Act is used in order to establish whether any crimes have been committed. Therefore, it may not be appropriate here because of the civil penalty regime. We will all need to see how the consultation results affect the Act when it is amended by the Home Office.

[156] **Peter Black:** Local authorities are using it for level 5 and other offences are they not?

[157] **Mr Brunt:** I am not aware—

[158] **Peter Black:** So, at this stage, you do not think that there will be any need for Hybu Cig Cymru to make use of that Act?

[159] **Mr Brunt:** No. Under the Act's regime, persons authorised to undertake surveillance must be authorised by a designated body. At the moment, the Welsh Assembly Government is a designated body, as the police and the Home Office are, for example. HCC would not be a designated body for the purposes of undertaking surveillance under that Act. That is my opinion, but I am fairly sure that is correct.

[160] **Peter Black:** Is there a possibility that, at some stage, a Minister—not necessarily this Minister—might consider giving Hybu Cig Cymru the authority to use that Act?

Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i gynnal gwyliadwriaeth fel rhan o hynny i ganfod a yw rhywun yn torri'r gyfraith?

Mr Brunt: Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Cynhaliwyd ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref ynglŷn â'r defnydd ohoni yn y dyfodol.

Peter Black: Yr wyf yn sôn amdani fel y mae yn awr.

Mr Brunt: Fy nealltwriaeth i o'r ffordd y mae'r Ddeddf yn gweithio yw y gall swyddogion y Llywodraeth ymgymryd â gwyliadwriaeth o dan gyfarwyddyd lle rhoddwyd caniatâd neu lle mae angen brys i wneud hynny ac nad oes amser i gael caniatâd. Caiff y Ddeddf ei defnyddio i sefydlu a oes troseddau wedi cael eu cyflawni. Felly, efallai na fyddai'n briodol yma oherwydd y gyfundrefn cosbau sifil. Bydd angen inni weld sut mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn effeithio ar y Ddeddf pan gaiff ei diwygio gan y Swyddfa Gartref.

Peter Black: Mae awdurdodau lleol yn ei defnyddio ar gyfer troseddau lefel 5 a throseddau eraill onid ydynt?

Mr Brunt: Nid wyf yn ymwybodol—

Peter Black: Felly, ar hyn o bryd, nid ydych yn credu y bydd unrhyw angen i Hybu Cig Cymru ddefnyddio'r Ddeddf honno?

Mr Brunt: Nac ydwyf. O dan gyfundrefn y Ddeddf, rhaid i'r rhai y rhoddir caniatâd iddynt i gynnal gwyliadwriaeth gael caniatâd gan gorff dynodedig. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gorff dynodedig, fel y mae'r heddlu a'r Swyddfa Gartref, er enghraifft. Ni fyddai HCC yn gorff dynodedig at ddibenion cynnal gwyliadwriaeth o dan y Ddeddf honno. Fy marn i yw hynny, ond yr wyf yn weddol siŵr ei bod yn gywir.

Peter Black: A oes posibilrwydd y gallai Gweinidog, ar ryw adeg—nid o reidrwydd y Gweinidog hwn—ystyried rhoi'r awdurdod i Hybu Cig Cymru i ddefnyddio'r Ddeddf honno?

3.00 p.m.

[161] **Mr Brunt:** The Regulation of Investigatory Powers Act 2000 was made by the UK Government, and we would have to lobby the Home Office to amend Schedule 1 to the Act to add in a new authorising body. That is not devolved at present, I am afraid.

Mr Brunt: Gan Lywodraeth y DU y cafodd Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ei gwneud, a byddai rhaid inni lobio'r Swyddfa Gartref i ddiwygio Atodlen 1 at y Ddeddf honno i ychwanegu corff awdurdodi newydd. Nid yw hynny wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, mae arnaf ofn.

[162] **Peter Black:** That is fine. I am just trying to ensure that there are appropriate checks and balances in relation to that Act.

Peter Black: Popeth yn iawn. Nid wyf ond yn ceisio sicrhau bod mesurau priodol i gadw cydbwysedd mewn perthynas â'r Ddeddf honno.

[163] My last question is about section 12(7), which refers to partnerships and Scottish partnerships. Minister, could you clarify whether there is a need to make specific reference to Scottish partnerships? I suspect that I know the answer.

Mae a wnelo fy nghwestiwn olaf ag adran 12(7), sy'n cyfeirio at bartneriaethau a phartneriaethau Albanaidd. Weinidog, a allech egluro a oes angen cyfeiriad penodol at bartneriaethau Albanaidd? Credaf fy mod yn gwybod yr ateb.

[164] **Elin Jones:** It is an intriguing question. My understanding of that section is that a partnership would be constituted under English and Welsh circumstances, and we need to make specific reference to a Scottish partnership because, if a Welsh designated person was in a partnership with a Scottish partner, that would also be subject to enforcement for this purpose. So, it is to avoid any potential Scottish partnership not being included under the enforcement of this proposed Measure.

Elin Jones: Mae'n gwestiwn diddorol. Fy nealltwriaeth i o'r adran honno yw y byddaiartneriaeth yn cael eu sefydlu o dan amgylchiadau Cymru a Lloegr, a bod angen inni gyfeirio'n benodol at bartneriaeth Albanaidd oherwydd, pe bai person dynodedig o Gymru mewnartneriaeth gyda phartner o'r Alban, byddai honno hefyd yn ddarostyngedig i orfodaeth i'r diben hwn. Felly, mae yno i osgoi peidio â chynnwys unrhyw bartneriaeth Albanaidd bosibl yng nghamau gorfodi'r Mesur arfaethedig hwn.

[165] **Peter Black:** What about Northern Ireland? There is a separate legislative regime there, too.

Peter Black: Beth am Ogledd Iwerddon? Mae cyfundrefn ddeddfwriaethol ar wahân yno, hefyd.

[166] **Elin Jones:** I refer you to my officials.

Elin Jones: Fe'ch cyfeirïaf at fy swyddogion.

[167] **Mr Brunt:** As the Minister said, we have included Scottish partnerships to avoid the situation in which a partnership constituted in Scotland but operating in Wales evaded enforcement. On why we do not name Northern Ireland partnerships, I cannot give you a definitive answer to that, but it is standard drafting practice in England and Wales to refer to Scottish partnerships but not to Northern Ireland partnerships.

Mr Brunt: Fel y dywedodd y Gweinidog, yr ydym wedi cynnwysartneriaethau Albanaidd i osgoi'r sefyllfa lle byddaiartneriaeth a sefydlwyd yn yr Alban ond sy'n gweithredu yng Nghymru yn osgoi camau gorfodi. O ran pam nad ydym yn enwiartneriaethau â Gogledd Iwerddon, ni allaf roi ateb diffiniol ichi i hynny, ond mae'n arfer drafftio safonol yng Nghymru a Lloegr cyfeirio at bartneriaethau Albanaidd ond nid at bartneriaethau â Gogledd Iwerddon.

[168] **Peter Black:** It occurs to me that, as well as having a separate legislative regime,

Peter Black: Mae'n fy nharo i, yn ogystal â bod ganddi gyfundrefn ddeddfwriaethol ar

Northern Ireland is closer to Wales than Scotland is. Perhaps you could look at that.

wahân, fod Gogledd Iwerddon yn nes at Gymru na'r Alban. Efallai y gallech edrych ar hynny.

[169] **David Lloyd:** Dyna ddiwedd y cwestiynu swyddogol. Diolch yn fawr i'r Gweinidog am gymryd yr amser i ddod atom fel pwyllgor. Er ei bod yn bell i ffwrdd, mae'n hynod agos dros y gwifrau. Diolch hefyd i'r swyddogion am eu cyfraniadau. Weinidog, a hoffech wneud unrhyw sylwadau ychwanegol? A oes unrhyw faterion y mae angen ehangu arnynt, neu a ydych yn hapus gyda'r gosodiadau fel y maent?

David Lloyd: That concludes the official questions. I thank the Minister for taking the time to come to committee. She is far away, and yet very close thanks to the technology. I also thank her officials for their contributions. Minister, are there any additional comments that you want to make? Are there any matters that you believe need to be expanded, or are you content with the statements as they are?

[170] **Elin Jones:** Yr wyf yn hapus i derfynu ar hynny, diolch.

Elin Jones: I am happy to leave it there, thank you.

[171] **David Lloyd:** Atgoffaf swyddogion am y nodyn. Oherwydd yr amserlen dynn o ran gweithredu'r pwyllgor, gofynnaf yn garedig iddo gyrraedd y clerch cyn gynted ag y bo modd.

David Lloyd: I remind your officials about the note. Given the committee's tight operational timetable, I kindly request for the note to reach the clerk as soon as is possible.

[172] Weinidog a swyddogion, bydd y clerch yn anfon trawsgrifiad drafft o'r trafodaethau hyn atoch iddo gael ei gywiro os bydd angen cyn cyhoeddi'r Cofnod terfynol. Diolch yn fawr ichi i gyd am eich presenoldeb. Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 ar ddydd Iau nesaf, 19 Tachwedd, pan fydd y pwyllgor yn cymryd tystiolaeth gan gymdeithas lladd-dai Prydain ac yn ystyried y materion allweddol sydd i'w cynnwys yn ei adroddiad terfynol. Diolch ichi i gyd am eich presenoldeb. Mae'r cyfarfod ar ben. Diolch yn fawr am y cyfieithu.

Minister and officials, the clerk will send you a draft transcript of these proceedings so that it can be corrected if necessary before the final version of the Record is published. Thank you for your attendance. The next meeting of Legislation Committee No. 3 will be held next Thursday, 19 November, when the committee will take evidence from the British abattoirs association and will consider the key issues for inclusion in its final report. Thank you all for your attendance. The meeting is now closed. Thank you for the interpretation.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.04 p.m.

The meeting ended at 3.04 p.m.